TASG 1 : PERFFORMIAD

a) Mewn parau, trafodwch pam fod gan y bachgen 'hiraeth am yr afon *heno*'.

b) Ceisiwch ddyfalu beth yw union amgylchiadau'r 'heno' hwn.

TASG 2 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mae pysgota'n gamp boblogaidd iawn, ond nid yw at ddant pawb.

Ysgrifennwch ddwy restr, un yn nodi pump o bethau sydd o blaid pysgota fel camp, a phump o bethau sydd yn ei herbyn.

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

a) Ceisiwch ddwyn i gof un o'ch hoff atgofion plentyndod chi sydd yn gysylltiedig ag afon neu â glan y môr, y math o brofiad pan oedd 'diwrnod cyfan yn mynd fel eiliadau'.

b) Trowch yr atgof hwnnw yn gerdd fer gan geisio cadw'r llinellau yr un hyd â'i gilydd a chan anelu at ddisgrifiadau byw a bachog, nid dim ond rhestr o ddigwyddiadau. (12 llinell)

CYMORTH HAWDD: Er mwyn dod â'r atgof yn fyw i'r darllenydd, cofiwch ddefnyddio'r synhwyrau wrth ddisgrifio, ynghyd â defnyddio cyffelybiaethau/cymhariaethau, trosiadau a chyflythrennu.